24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Karen Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot
SA13 1PJ

**Cyfeirnod:** 3074A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Gorffennaf 2022

Annwyl Karen

# Asesiad Sicrwydd a Risg – Diweddariad ar y Cynnydd

Yn dilyn ein cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynharach eleni fe ddwedom ni y byddem yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol ar ein gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi'i wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran trefniadau'r Cyngor i ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fe wnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesiad Sicrwydd a Risg (ASR) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

Rydym yn cydnabod bod ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynd rhagddo'n barhaus. Mae'r adborth hwn yn darparu diweddariad ar adeg benodol mewn amser fel rhan o'r asesiad sicrwydd a risg o'r cynnydd gyda threfniadau'r Cyngor yn y maes hwn.

## Trefniadau i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Yr hyn a wnaethom

Fe gynhaliom ni ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2022. Cafodd y dystiolaeth ei chasglu trwy gyfweliadau ac adolygiadau o ddogfennau ac roedd yn tynnu ar ganfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor hefyd. Fe wnaeth ein gwaith fwrw golwg ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nid oedd y gwaith yn asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

## Yr hyn a ganfuom

- **Trefniadau ar gyfer Hunanasesu ac Asesiadau Panel**

Fe wnaeth y Cyngor beth gwaith yn gynnar yn 2021 i ddechrau datblygu'r dull ar gyfer ei drefniadau hunanasesu. Fodd bynnag, ataliwyd y gwaith hwn am y tro i alluogi staff allweddol i ganolbwyntio ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Yn awr bod y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei gyhoeddi mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i helpu i ddylunio ei ddull hunanasesu a phenderfynu sut orau i ennyn ymgysylltiad Aelodau â'r broses.

Er bod y dull hunanasesu ar y cyfan yn dal i gael ei gwblhau, fel rhan o'i ddull cynllunio busnes mae'r Cyngor wedi datblygu Templed a Chanllawiau ar gyfer Cynllun Adfer Gwasanaethau sy'n cynnwys adran ar gynnal yr hunanasesiad. Mae'r Cyngor yn cynnig y bydd y broses hon yn darparu peth o'r dystiolaeth gynradd a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldeb hunanasesu dan y Ddeddf. Tanategir y dull gan nifer o nodau allweddol, gan gynnwys:

- gweithredu fel yr offeryn cynllunio allweddol ar gyfer y gwasanaeth a fydd yn tanategu trefniadau cynllunio a pherfformiad ar lefel gwasanaethau;
- galluogi gwasanaethau i ddarparu gwerthusiad gonest, gwrthrychol a thryloyw o berfformiad a dangos hunanymwybyddiaeth o waith dadansoddi seiliedig-ar-dystiolaeth;
- helpu gwasanaethau i fod â dealltwriaeth ddyfnach am eu gwasanaeth i wneud penderfyniadau gwell, goleuo prosesau cynllunio a rheoli risgiau;
- helpu i oleuo'r broses hunanwerthuso ar ei lefel gorfforaethol (sydd bellach yn ofynnol yn gyfreithiol); a
- helpu i gyfleu gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau i randdeiliaid.

Bwriad y Cyngor yw cyfuno allbynnau'r gwaith hunanasesu a'r adroddiad blynyddol ar gynnydd gydag amcanion llesiant y Cyngor mewn un adroddiad, y mae'n bwriadu ei gyhoeddi ym mis Medi/Hydref 2022.

Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd y penderfyniadau ar gyfer y trefniadau hunanasesu a'r amseriad ar gyfer yr Asesiad Panel statudol cysylltiedig yn cael eu gwneud gan y weinyddiaeth newydd ar ôl etholiadau mis Mai 2022. Fodd bynnag, y ffordd o feddwl ar hyn o bryd yw bod y panel hwn yn debygol o ddigwydd hanner ffordd trwy dymor y weinyddiaeth newydd.

- **Trefniant ar gyfer y Ddyletswydd Ymgynghori a'r Strategaeth Cyfranogi**

Mae'r Cyngor yn dal wrthi'n datblygu sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswydd i ymgynghori ynghylch ei hunanasesiad. Fodd bynnag, wrth ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â dinasyddion, a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd unrhyw ymgynghoriad ynghylch yr hunanasesiad yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori presennol hwn.

Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn drafftio'i Strategaeth Cyfranogi ac mae wedi dweud wrthym ei fod yn awyddus i sicrhau dull Cyngor cyfan o ddatblygu'r Strategaeth a sicrhau ei fod yn ateb y gofynion yng Nghanllawiau'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

- **Trefniadau ar gyfer y newidiadau i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio**

Cytunwyd ar y newidiadau gofynnol o ran cyfansoddiad newydd Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio (PLlacA) y Cyngor a'r Cylchoedd Gorchwyl newydd yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mawrth 2021. Bydd y PLlacA yn cynnwys 12 aelod, y bydd tri aelod lleyg newydd ac un aelod lleyg presennol yn eu plith. Cafodd tri aelod lleyg newydd eu penodi'n ffurfiol ym mis Chwefror 2022.

Roedd y Cyngor wedi bwriadu cynnal peth hyfforddiant sefydlu cychwynnol ar gyfer yr aelodau lleyg newydd ym mis Mawrth 2022 gyda hyfforddiant pellach i'r holl Aelodau'n cael ei gynnal gan CLlLC ym mis Mehefin 2022.

- **Trefniadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig**

Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru ar 13 Ionawr 2022 ar y cyd â'r partneriaid statudol eraill, sef Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Gâr, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro. Fe wnaed penderfyniadau statudol allweddol yn y cyfarfod hwn, megis penodi i'r strwythur llywodraethu, cytuno ar y cyfansoddiad a gofynion statudol eraill megis y rhai sy'n ymwneud â throsolwg a chraffu. Cafodd y Gyllideb Ddrafft ei chymeradwyo mewn cyfarfod diweddarach ar 25 Ionawr 2022.

Mae Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru wedi cael ei drefnu o amgylch strwythur is-bwyllgorau ar gyfer y meysydd cyfrifoldeb allweddol. Fodd bynnag, fe wnaed penderfyniad i beidio ag integreiddio rhaglenni datblygu economaidd rhanbarthol eraill, megis y Fargen Ddinesig, yn y Cydbwyllgor Corfforedig ar yr adeg hon i osgoi unrhyw darfu posibl ar gyflawni'r Fargen Ddinesig.

Mynegodd y Cyngor beth pryder hefyd ynghylch y diffyg eglurder ar hyn o bryd ynglŷn â statws cyfreithiol cytunedig y Cydbwyllgorau Corfforedig ledled Cymru, gyda hyn yn creu risg y bydd TAW a Threth Gorfforaeth yn ddyledus o bosibl ar arian a allai lifo trwy Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda CLILC i geisio datrysiad i hyn.

- **Defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Dywedodd y Cyngor wrthym nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa hon newid unwaith y bydd wedi cael y canllawiau arfaethedig ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru, a ddylai ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi dweud y bu diddordeb o blith Cynghorau Tref a Chymuned o ran y potensial iddynt hwy ddefnyddio'r pŵer yma.

Mae'r llythyr hwn yn rhan o'r adborth ar ein gwaith Asesiad Sicrwydd a Risg. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad maes o law ar dri maes pwnc pellach: cynllunio adferiad, lleihau carbon a diweddariad ar gynaliadwyedd ariannol. Bwriedir cyflwyno adroddiadau ar y gwaith yn y tri maes yma yn haf 2022.

Hoffwch achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am y gefnogaeth barhaus yr ydych yn ei rhoi i'n galluogi i wneud ein gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n gadarnhaol gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Non Jenkins
**Rheolwr Archwilio**